

# CRYFHEWCH EICH BUSNES GYDA THECHNOLEGAU UWCH

Wedi'i  
Ariannu'n  
Llaw\*

Rhaglen Prifysgol  
Gydweithredol:

## PEIRIANNEG DYLUNIO UWCH

- » Ar gael i gwmnïau gweithgynhychu cymwys yng Nghymru
- » Cymorth a chefnogaeth ymarferol i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru

“ Mae'r prosiect yn bwysig iawn i'n busnes yn y dyfodol ac rydym yn llawn cyffro am ddarparu ateb i un o'r prif fygythiadau uniondeb o fewn ein diwydiant ar hyn o bryd. ”

**Stuart Kenny, Rheolwr Cyffredinol, Technolegau Eddyfi**



Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David



Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund

## Gwireddu potensial technolegau newydd gydag ADE

Mae rhaglen Peirianeg Dylunio Uwch (ADE) MADE Cymru yn cynnig cyfle i weithgynhyrchwyr yng Nghymru gydweithio ag arbenigwyr, gan ddefnyddio technolegau, technegau, deunyddiau a sgiliau gweithgynhyrchu uwch sydd â'r potensial i fod o fudd uniongyrchol i'ch cwmni.

Mae cwmnïau sy'n cymryd rhan yn ADE yn cael cyfle i gael mynediad at dechnolegau a phrosesau gan gynnwys:

- » GWEITHGYNHYRCHU HAEN-AR-HAEN 3D METEL (EBM)
- » STEREOLITHOGRAFFEG (SLA)
- » TECHNOLEG AML-JET HD
- » SGANIO 3D/PEIRIANNEG AM YN ÔL
- » CASTIO GWACTOD
- » YMCHWILIO DEUNYDDIAU
- » DYLUNIO AR GYFER DULLIAU GWEITHGYNHYRCHU UWCH
- » OPTIMEIDDIO TOPOLEG/DEFNYDDIO DYLUNIO CYNHYRCHIOL
- » OPTIMEIDDIO AR GYFER GWEITHGYNHYRCHU SWP
- » DADANSODDI STRWYTHUROL/STRAEN (FEA)
- » DATBLYGU CYNNYRCH O'R DECHRAU I'R DIWEDD



### Pwy sy'n gymwys ar gyfer ADE?

- » BBaChau yng Nghymru sydd â rhwng 10 a 250 o weithwyr a chyda throsiant o < £50m.
- » BBaChau yng Nghymru sy'n rhan o grwpiau mwy sy'n dal llai na 25% o'r hawliau pleidleisio cyfalaf.


## STRWYTHUR PROSIECT ADE

Gellir rhannu ADE yn 3 cham fel yr amlinellir isod.




### CAM 1 - CWMPASU'R PROSIECT

- » BBaCh a thîm ADE i gynnal dadansoddiad cydweithredol o anghenion.
- » BBaCh a thîm ADE i gydweithio mewn ymarfer cwmpasu i ddiffinio prosiect ymchwil clir.
- » Amserlen: tua 2-4 wythnos.
- » Argymhell symud ymlaen i Gam 2.



### CAM 2 - YMCHWIL A DATBLYGU

- » BBaCh a thîm ADE i gydweithio i gyflawni'r prosiect ymchwil a gwmpaswyd yng Ngham 1.
- » Bydd y BBaCh yn derbyn allbynnau'r ymchwil a datblygu a gynhaliwyd e.e. prototeip ffisegol, prawf o gysyniad, dichonoldeb.
- » Amserlen: tua 6-24 wythnos.
- » Argymhell symud ymlaen i Gam 3.



### CAM 3 - GWEITHREDU

- » Gan ddefnyddio canfyddiadau Cam 2, bydd y tîm ADE yn cydweithio â chi i weithredu'r dechnoleg, y broses neu'r cynnyrch newydd yn ateb masnachol hyfyw.
- » Bydd cymorth ar gael ar sawl ffurf gan gynnwys cael gafael ar gyllid, cyrchu a chynghori ar dechnolegau neu gyflwyniadau i bartneriaid a all helpu i ddod â thechnolegau uwch i mewn i'ch proses weithgynhyrchu.
- » Amserlen: pwrpasol i'r prosiect a'r cwmni.
- » Bydd gan y BBaCh broses/gwasanaeth/cynnyrch newydd neu optimaidd.

\* Mae pob Cam yn gofyn am gytundeb cydweithio wedi'i lofnodi

\*\* Os nad argymhellir symud ymlaen i Gam 2, bydd y tîm ADE yn cefnogi'r BBaChau i gael gafael ar ffynonellau cymorth addas eraill.

Mae ADE yn rhan o MADE Cymru, cyfres o raglenni sydd wedi'u cynllunio i lywio sefydliadau drwy'r rhaglen Diwydiant 4.0 drwy ymchwil a datblygu cydweithredol ac uwchsgilio.

Mae wedi'i hariannu'n rhannol/llawn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop/Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru

Wedi'i ddarparu gan arbenigwyr diwydiant ym Mhrifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant.

Yn ogystal â'r cyfleoedd ymchwil a datblygu ar y cyd rydym wedi'u trafod yn y daflen hon, mae MADE Cymru hefyd yn cynnig cyfleoedd dysgu achrededig drwy addysgu hyblyg ar-lein. O fodiwlau bach i MSc llawn. Mae rhestr lawn o'r cyrsiau isod ond cysylltwch â ni i drafod sut y gallwn deilwra hyn i chi a'ch gweithlu.

### **Rhestr lawn o gyrsiau ardystiedig Y Drindod Dewi Sant a gynigir gan MADE Cymru:**

- » **Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0**  
(Tystysgrif 40 credyd Lefel 5)
- » **Gweithgynhyrchu Clyfar gyda Diwydiant 4.0**  
(Tystysgrif 40 credyd Lefel 7)
- » **Gweithgynhyrchu Uwch Diwydiant 4.0** (MSc Lefel 7)  
(opsiwn i astudio modiwlau unigol os dymunir)
- » **Gwella Busnes gyda Rheoli Arloesedd**  
(Tystysgrif 40 credyd Lefel 7)
- » **Rheoli Arloesedd Rhyngwladol** (MSc Lefel 7)



Cysylltwch drwy ffonio **01792 481199**, e-bostio **MADE@uwtsd.ac.uk** neu ewch i **www.madecymru.co.uk**